



Llywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â
Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o Ddeddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Gweinidogion wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith hwn fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Y broses o wneud codau a rheoliadau o dan y Ddeddf

Mae'r rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac maent bellach yn cael eu cyflwyno i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'u gosod yn cael ei wneud o dan y Ddeddf a'i gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Bydd y gyfres gyntaf ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2014. Disgwylir y bydd ymgynghoriad yr ail gyfres yn cael ei gynnal rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ar 6 Ebrill 2016.

Yr hyn y mae'r gyfres gyntaf o reoliadau a chodau ymarfer yn ei gwmpasu

Mae'r gyfres gyntaf yn ymdrin â darpariaethau craidd yn ymwneud â chymhwysra, asesu, cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol yn Rhannau 2 i 4 o'r Ddeddf, ynghyd â darpariaethau yn Rhan 7, yn ymwneud â diogelu, a rhan 11 yn ymwneud â phreswylfa arferol ac anghydfodau cysylltiedig.

Cwmpas y codau ymarfer a'r rheoliadau mewn perthynas â Rhan 2 o'r Ddeddf

Llesiant

Mae **adrannau 5, 6, 7 ac 8** yn gosod dyletswyddau hollgyffredinol newydd ar unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo

llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, gan gynnwys dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o ganlyniadau i'w cyflawni. Nid oes unrhyw bwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r adran hon; yn lle hynny, rydym wedi cynnwys darpariaethau i gwmpasu'r maes hwn ym mhennod 1 o god ymarfer Rhan 2.

Mae'r bennod hon o'r cod yn nodi diffiniad ar gyfer hyrwyddo llesiant a sut y dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys gofynion i sicrhau bod anghenion llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn llywio swyddogaethau ehangach, mwy strategol awdurdodau lleol fel darparu gwasanaethau ataliol neu drefnu ar eu cyfer.

Mae'r cod yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag bydd goblygiadau i gyrff sy'n bartneriaid, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ac i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yng Nghymru.

O dan adran 8, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant i'w cyflawni. Rhaid gosod hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fydd y Ddeddf yn cychwyn yn 2016. Bydd y datganiad hwn yn rhan hanfodol o'r fframwaith statudol sy'n nodi'r canlyniadau i'w cyflawni. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu datganiad llesiant cyn i'r Ddeddf gychwyn.

Asesu anghenion ar gyfer gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol

Mae **Adran 14** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion ar gyfer gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr mewn ardal awdurdod lleol. Mae hefyd yn rhoi pŵer eang i Weinidogion wneud rheoliadau mewn perthynas â'r asesiad o'r boblogaeth. Mae Pennod 2 o'r cod yn darparu amrywiaeth o wybodaeth benodol am sut y mae asesiad o'r boblogaeth yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau yn nodi:

- Yr angen i asesiadau o'r boblogaeth gael eu cyhoeddi a'u hanfon at Weinidogion Cymru;
- Bod asesiad o'r boblogaeth yn cael ei lunio bob cylch etholiadol llywodraeth leol a'i adolygu. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr asesiadau o'r boblogaeth yn cael eu llunio o fewn amserlen i lywio'r system cynllunio integredig sengl newydd mewn modd ystyrlon;
- Yr angen i asesiadau o'r boblogaeth ystyried y fframwaith canlyniadau cenedlaethol;

- Yr angen i ymgysylltu â dinasgyddion, gofalmwr, y trydydd sector a'r sector annibynnol wrth lunio asesiad o'r boblogaeth.

Diben yr asesiad hwn o'r boblogaeth yw sicrhau bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn paratoi sail dystiolaeth glir a phenodol ar y cyd mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalmwr i lywio penderfyniadau cynllunio a gweithredol amrywiol.

Er mwyn darparu ar gyfer asesiadau mwy effeithiol o'r boblogaeth, bydd rheoliadau o dan adran 166 o'r Ddeddf yn rhoi trefniadau partneriaeth ar waith fel bod pob Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol yn yr ardal honno yn cydlynu'r ymarfer asesu i alluogi llunio adroddiad asesiad o'r boblogaeth ar y cyd.

Mae Pennod 2 o'r cod ymarfer ategol yn ategu'r rheoliadau drwy nodi amrywiaeth o wybodaeth benodol am sut y mae asesiad o'r boblogaeth yn cael ei gynnal. Ategir hyn gan bennod 3 o'r Cod, sy'n nodi'r gofynion ar wasanaethau cymdeithasol i ddarparu neu drefnu amrywiaeth o wasanaethau ataliol. Rhaid i'r asesiad o'r boblogaeth gynnwys nodi amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol.

Cynigiwn fod trefniadau partneriaeth yn cael eu rhoi ar waith drwy ddefnyddio adran 166 o'r Ddeddf fel bod pob Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol yn yr ardal honno yn cydlynu'r ymarfer asesu i alluogi llunio adroddiad asesiad o'r boblogaeth ar y cyd.

Hyrwyddo mentrau cymdeithasol

O dan **adran 16** rhoddir dyletswydd gyffredinol newydd ar awdurdodau lleol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo modelau gwasanaeth sy'n fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, modelau eraill sy'n cynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i ddylunio a darparu eu gwasanaethau, a'r trydydd sector.

Mae hyn yn sail i nod cyffredinol y Ddeddf o roi pobl yn y canol ac mae'n darparu fframwaith cyfreithiol lle y bydd awdurdodau lleol yn mynd ati'n weithredol i ystyried y sefydliadau sy'n seiliedig ar werthoedd gan nodi'r model busnes mwyaf addas i ddarparu gwasanaethau – gan sicrhau eu bod yn ystyried y defnydd o fentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol yn eu hamrywiol ffurfiau fel ffyrdd o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Rheoliadau drafft yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Gweithgareddau o ddisgrifiad a bennwyd i'w trin neu ddim i'w trin fel gweithgareddau y gall person farnu'n rhesymol eu bod yn weithgareddau sy'n cael eu cyflawni er budd y gymdeithas;
- Sefydliadau neu drefniadau i'w trin neu ddim i'w trin fel:
 - Mentrau cymdeithasol
 - Mentrau cydweithredol neu drefniadau cydweithredol,

- Sefydliadau trydydd sector;
- Yr hyn sydd, neu'r hyn nad yw, yn gyfystyr ag adran o'r gymdeithas

Mae Pennod 4 o'r cod ymarfer yn ategu'r Ddeddf a'r rheoliadau. Mae'r canlynol wedi eu cynnwys yn y cod:

- Cydgynhyrchu;
- Mesur llwyddiant;
- Creu'r amgylchedd cywir;
- Tendre a chaffael;
- Cydweithredu

Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Mae **Adran 17** o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu i roi gwybodaeth a chynghor i bobl. Dylai'r wybodaeth honno ymwneud â gofal a chymorth a chynhorthwy o ran cael gafael ar ofal a chymorth.

Rhaid i'r gwasanaeth hwn gynnwys, o leiaf, ddarparu gwybodaeth am:

- Sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu;
- Y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael;
- Sut i gael gafael ar y gofal a'r cymorth hwn;
- Sut i leisio pryderon

Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth gwybodaeth ond bydd angen gwella eu darpariaeth er mwyn bodloni'r dyletswyddau newydd. Y nod yw sicrhau gwasanaeth sy'n hygyrch i bawb ac sy'n darparu'r pwynt mynediad allweddol i'r system newydd. Bydd y gwasanaeth yn ganolog i ddarparu gofal a chymorth a bydd yn chwarae rôl allweddol o ran asesu anghenion am ofal a chymorth person a chyfeirio pobl at yr ateb mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Bydd yn galluogi ymyrryd yn gynnar a chymorth ataliol i leihau'r angen am ofal a chymorth a reolir.

Nid oes unrhyw bwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r adran hon yn y Ddeddf. Yn lle hynny, mae pennod 5 o'r cod yn nodi gofynion ar gyfer y gwasanaeth gan gynnwys:

- Gwasanaeth hygyrch sydd ar gael i bawb;
- Safonau cyflenwi cenedlaethol;
- Gweithlu medrus;
- Gwasanaeth sydd wedi ei drefnu ar sail ôl troed rhanbarthol Bwrdd Iechyd Lleol o leiaf;
- Dull integredig ag iechyd, y trydydd sector a'r sector annibynnol;
- Cofnodi data personol drwy'r broses asesu syml;
- Cofnodi data rheoli ar gyfer perfformiad a chynllunio ar gyfer y dyfodol.